Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **26 Gorffennaf 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019").**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Deddf Iechyd Planhigion 1967
- Deddf Iechyd Planhigion (Gogledd Iwerddon) 1967
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

**Y Gyfraith sy'n cael ei dirymu**

- Penderfyniad gan y Comisiwn 2007/433/EC ar fesurau brys dros dro er mwyn atal *Gibberella circinata* (Nirenberg & O'Donnell) rhag dod i mewn i'r Gymuned a mynd ar led o fewn y Gymuned
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2012/138/EU ynghylch mesurau brys er mwyn atal *Anoplophora chinensis* (Forster) rhag dod i mewn i'r Undeb a mynd ar led o fewn yr Undeb
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2012/270/EU ynghylch mesurau brys er mwyn atal *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix papa* sp.n., *Epitrix subcrinita* (Lec.) ac *Epitrix tuberis* (Gentner) rhag dod i mewn i'r Undeb a mynd ar led o fewn yr Undeb
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2012/535/EU ynghylch mesurau brys er mwyn atal *Bursaphelenchus xylophilus* (Steiner et Buhrer) Nickle et al. (nematod coed pîn) rhag lledu o fewn yr Undeb
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2012/697/EU ynghylch mesurau er mwyn atal y genws *Pomacea* (Perry) rhag dod i mewn i'r Undeb a lledu o fewn yr Undeb
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2015/789 ynghylch mesurau er mwyn atal *Xylella fastidiosa* (Wells et al.) rhag dod i mewn i'r Undeb a lledu o fewn yr Undeb
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2015/893 ynghylch mesurau er mwyn atal *Anoplophora glabripennis* (Motschulksy) rhag dod i mewn i'r Undeb a lledu o fewn yr Undeb

- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2016/412 yn awdurdodi Aelod-Wladwriaethau i wneud darpariaeth ar gyfer rhanddirymiad dros dro o rai o ddarpariaethau Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phren onnen sy'n tarddu o Ganada neu a gaiff ei brosesu yng Nghanada
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2016/715 yn nodi mesurau mewn perthynas â rhai ffrwythau sy'n tarddu o rai trydydd gwledydd er mwyn atal yr organeb niweidiol *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa rhag dod i mewn i'r Undeb a lledu o fewn yr Undeb
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2018/1203 yn awdurdodi Aelod-Wladwriaethau i wneud darpariaeth ar gyfer rhanddirymiad dros dro o rai o ddarpariaethau Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â phren onnen sy'n tarddu o Unol Daleithiau America neu a gaiff ei brosesu yn Unol Daleithiau America ac sy'n diddymu Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2017/204.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2018/1503 sy'n sefydlu mesurau ar gyfer atal *Aromia bungii* (Faldermann) rhag dod i mewn i'r Undeb a lledu o fewn yr Undeb
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2018/1553 ynghylch amodau ar gyfer cydnabod tystysgrifau electronig sicrhau iechyd planhigion a roddir gan sefydliadau diogelu planhigion cenedlaethol trydydd gwledydd
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2018/1959 sy'n rhanddirymiad o 2000/29/EC o safbwynt mesurau ar gyfer atal yr organeb niweidiol *Agrilus planipennis* (Fairmaire) rhag dod i mewn i'r Undeb a lledu o fewn yr Undeb drwy bren sy'n tarddu o Ganada ac Unol Daleithiau America.
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2019/1449 sy'n diwygio Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2016/715 ac sy'n nodi mesurau mewn perthynas â rhai ffrwythau sy'n tarddu o rai trydydd gwledydd er mwyn atal yr organeb niweidiol *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa rhag dod i mewn i'r Undeb a lledu o fewn yr Undeb

**Diben y diwygiadau**
Diben Rheoliadau 2019 yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE. Maent hefyd yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas ag iechyd planhigion er mwyn dileu cyfeiriadau at rwymedigaethau'r UE.

Mae nifer o offerynnau'r UE wedi'u mabwysiadu sy'n diwygio atodiadau'r Gyfarwyddeb Iechyd Planhigion (Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC) yn sgil newidiadau technolegol i'r modd yr asesir peryglon sydd ynghlwm wrth rai plâu a chlefydau a chyflwyno mesurau newydd ar gyfer mynd i'r afael â pheryglon sydd ynghlwm wrth blâu a chlefydau eraill. Bydd Rheoliadau 2019 yn sicrhau bod deddfwriaeth ym maes iechyd planhigion sy'n gweithredu mesurau diogelu'r UE rhag cyflwyno a lledu organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion yn parhau mewn grym ar ôl i'r DU ymadael â'r UE os na fydd cytundeb.

Mae Rhan 2 o Reoliadau 2019 yn diwygio Deddf Iechyd Planhigion 1967 a Deddf Iechyd Planhigion (Gogledd Iwerddon) 1967 gan ddileu cyfeiriadau at rwymedigaethau'r UE o

adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 ac at rwymedigaethau'r Gymuned o adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion (Gogledd Iwerddon) 1967.

Mae Rhan 3 o Reoliadau 2019 yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019 sy'n dirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a gyflwynwyd ers i'r Rheoliadau hyn gael eu gosod.

Mae Rhan 4 o Reoliadau 2019 yn gwneud rhai mân ddiwygiadau, sy'n ymwneud ag arddull gan fwyaf, i Reoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

Mae Rheoliadau 2019 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/z5kBsny2

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Ar wahân i'r canlynol, nid yw Rheoliadau 2019 yn effeithio ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae Rheoliad 2 i Reoliadau 2019 yn dileu cyfeiriadau at rwymedigaethau'r UE yn adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 a thrwy wneud hynny mae'n dileu pŵer awdurdodau cymwys (Gweinidogion Cymru yw awdurdod cymwys Cymru) i wneud gorchmynion yn unol â rhwymedigaethau'r UE.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Nid yw Rheoliadau 2019 yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Fel y nodir uchod**,** mae Rheoliadau 2019 yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a hefyd ddiffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE. Maent hefyd yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas ag iechyd planhigion er mwyn dileu cyfeiriadau at rwymedigaethau'r UE.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi'i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r diwygiadau i Deddf Iechyd Planhigion 1967